

Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin

Atodiad

Medi 2019



At sylw:

Cyngor Sir Caerfyrddin



Nexus | Discovery Way | Prifysgol Leeds | Leeds | LS2 3AA
0113 819 5087 | www.edgeanalytics.co.uk

Cydnabyddiaethau

Mae'r ystadegau demograffig a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn tarddu o ddata gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a drwyddedwyd dan Drwydded Agored y Llywodraeth v.3.0.

Nid yw awduron yr adroddiad hwn yn derbyn atebolrwydd am unrhyw gostau neu golled ganlyniadol yn sgil defnyddio'r data a'r dadansoddiad y cyfeirir atynt yma; cyfrifoldeb defnyddwyr y wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn llwyr yw hyn.

Cynnwys

Cydnabyddiaethau	i
Cynnwys	ii
1 Rhagarweiniad	1
2 Proffil Sir Gaerfyrddin	2
3 Senarios Demograffig	8
4 Amcangyfrifon Twf Cyflogaeth	11
5 Crynodeb.....	13
Atodiad A Sir Gaerfyrddin y Tu Allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	15
Atodiad B Rhagdybiaethau Economaidd	16

1 Rhagarweiniad

Cyd-destun a Gofynion

- 1.1 Yn 2018, comisiynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o senarios demograffig ac economaidd i lywio ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) sy'n datblygu¹. Cyfnod y CDLI yw 2018-2033 a disgwylir iddo gael ei fabwysiadu yn 2021.
- 1.2 Ar sail yr amrywiaeth o dystiolaeth ddemograffig ac economaidd a gyflwynwyd yn yr adroddiad, roedd y Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor yn nodi gofyniad tai o 9,887 o anheddau (2018-2033), sy'n cydfynd yn uniongyrchol â'r senario o ran **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir** a gyflwynwyd yn nadansoddiad Edge Analytics.
- 1.3 Bellach, mae'r Cyngor am adolygu ei ofyniad tai yng ngoleuni amrywiaeth o dystiolaeth newydd, gan gynnwys amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018 Sir Gaerfyrddin a'r fersiwn drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol² (FfDC).
- 1.4 Mae'r FfDC drafft yn nodi bod Llanelli yn Sir Gaerfyrddin yn rhan o'r brif ardal dwf ar gyfer rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru (sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro). Mae Caerfyrddin hefyd wedi'i nodi'n ganolfan ranbarthol a gefnogir gan ddull 'twf a reolir' i wella ei rôl ranbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen 23,400 o gartrefi ychwanegol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru erbyn 2038. Drwy ddsrannu'r gofyniad tai ranbarthol ar sail dosbarthiad y boblogaeth, byddai tua 5,000 o'r 23,400 o gartrefi ychwanegol hyn yn cael eu dyrannu i Sir Gaerfyrddin.

Y Dull Gweithredu

- 1.5 Mae Edge Analytics wedi ailgyflunio ei fodel POPGROUP ar gyfer Sir Gaerfyrddin er mwyn datblygu amrywiaeth o senarios, gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth ddemograffig ddiweddaraf, tueddiadau eraill a dyheadau'r Cyngor o ran twf. Cyflwynir canlyniadau a dadansoddiad o'r senarios hyn sydd wedi'u hailgyflunio yn yr adroddiad *ategol* hwn.
- 1.6 Ceir proffil demograffig diweddaedig o Sir Gaerfyrddin cyn y dadansoddiad o'r senarios POPGROUP sydd wedi'u hailgyflunio. Mae hyn yn cynnwys cydrannau diweddaraf y newid yn y boblogaeth (genedigaethau, marwolaeth a mudo), patrymau hanesyddol o ran mudo rhyngwladol a mewnol, yn ogystal ag ystadegau ynghylch y tai a gwblhawyd a dadansoddiad diweddaedig o broffil oedran y sir.


¹ Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin – Edge Analytics Ltd (Hydref 2018)

² <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft>

2 Proffil Sir Gaerfyrddin


Newid yn y Boblogaeth

- 2.1 Cododd poblogaeth Sir Gaerfyrddin 1,116 i ffigur amcangyfrifedig o 187,568 rhwng canol blwyddyn 2017 a chanol blwyddyn 2018 (Ffigur 1).




Ffigur 1: Poblogaeth Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin 2001–2018

- 2.2 Mae'r gyfradd twf blynyddol ar y gyfradd flynyddol uchaf (+0.6%) ers 2007/8, sef parhad o ran y twf poblogaeth blynyddol sy'n cyflymu ers 2015 (Ffigur 2).



Ffigur 2: Newid Blynyddol yn y Boblogaeth


2.3 Er bod cyfradd twf poblogaeth Sir Gaerfyrddin, sef 8.0% ers 2001, bellach yn fwy na'r gyfradd genedlaethol, mae'n parhau i fod yn is na siroedd cyfagos, sef Sir Benfro (10.6%) ac Abertawe (10.3%). Fodd bynnag, mae ganddi gyfradd twf uwch na Chastell-nedd Port Talbot (6.3%), Powys (4.8%) a Cheredigion (-3.2%) (Ffigur 3).



Ffigur 3: Newid yn y Boblogaeth yng Nghymru 2001-2018

2.4 Mae mudo mewnol net yn dal i fod yn brif ysgogydd newid yn y boblogaeth, a chafwyd cynnydd sylweddol yn lefel y mewnlif net, gan gyrraedd oddeutu +1600 yn 2017/18 a dangos cynnydd sylweddol o fwy na 700 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 4).


2.5 Fel ym mhob blwyddyn flaenorol ers 2001, mae newid naturiol wedi parhau i gael effaith negyddol ar dwf y boblogaeth. Yn 2017/18, cofnodwyd y nifer mwyaf o farwolaethau (2,453) ers 2001.



Ffigur 4 Cydrannau newid Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin 2001/2-2017/18


Mudo Mewnol

2.6 Mae mudo mewnol net wedi cael effaith gadarnhaol ar newid yn y boblogaeth ers 2001. Yn 2017/18, cafwyd y gyfradd mudo mewnol net uchaf ers 2003/04, o ganlyniad i'r cynnydd cyson a pharhaus yn y mewnlfif, ond hefyd oherwydd cadwyd mwy o'r boblogaeth bresennol, gan leihau'r all-lif (Ffigur 5).




Ffigur 5: Llifau mudo mewnol Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin

2.7 Mae'r data diweddaraf ar broffiliau oedran mudwyr domestig yn dangos tuedd barhaus, lle mae poblogaethau myfyrwyr yn bennaf yn mudo allan o Sir Gaerfyrddin, a phrin yw'r dystiolaeth eu bod yn dychwelyd yn y grŵp oedolion ifanc 20-29 oed (Ffigur 6). Mae'r mewnlfif net mudwyr ar ei uchaf yn yr ystod oedran 30-65 oed ac mae'n cyd-fynd â mewnlfif net uwch ar gyfartaledd o bobl ifanc 0-14 oed. Mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i fudo oedran teulu.



Ffigur 6: Llif mudo net blynyddol ar gyfartaledd yn ôl grŵp oedran 2001/02-2017/18

2.8 Mae'r prif gyfnewidiau mudo i Sir Gaerfyrddin ac allan o'r sir yn parhau'n debyg i'r blynyddoedd blaenorol, ac Abertawe a Cheredigion sy'n allforio'r nifer mwyaf o bobl yn flynyddol ar gyfartaledd i Sir Gaerfyrddin ers 2001/02. Caerdydd sy'n mewnfario'r nifer mwyaf o bobl o Sir Gaerfyrddin o bell ffordd, ac mae hynny yn ôl pob tebyg yn cael ei yrru gan lifau poblogaeth myfyrwyr. Mae Sir Benfro hefyd wedi bod yn gyrchfan boblogaidd o ran mudo i Sir Gaerfyrddin ac allan o'r sir, a chafwyd mewnlif blynyddol amcangyfrifedig ar gyfartaledd o 425, ac all-lif o 424. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth bach yn golygu nad yw'r gweddill net o ran mudo yn arwyddocaol (Ffigur 7).




Ffigur 7: 10 cyrchfan fwyaf poblogaidd Sir Gaerfyrddin ar gyfartaledd o ran Mewnlif ac All-lif Mudo Net 2001/02–2017/18

Mudo Rhyngwladol

2.9 Mae'r ystadegau Yswiriant Gwladol diweddaraf yn dangos bod y tuedd ddiweddar o ran gostyngiad yn nifer y cofrestriadau Yswiriant Gwladol ers 2015 yn arafu. Fodd bynnag, roedd nifer y cofrestriadau yn 2018, sef 473, y trydydd isaf ers 2008, gan barhau'n gyson â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 8).


2.10 Er mai Gwlad Pwyl a gyfrannodd 58% o'r holl gofrestrïadau Yswiriant Gwladol yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2002 a 2018, Rwmania oedd y cyfrannwr mwyaf yn 2018 (157 o gofrestrïadau).



Ffigur 8: Cofrestrïadau Yswiriant Gwladol Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin yn ôl mamwlad 2002-2018

Proffil Oedran


- 2.11 Mae'r twf blynyddol mwyaf yn y boblogaeth yn y grwpiau oedran 65+ a 80+ o hyd, ac mae ganddynt gyfraddau twf o 30% a 28%, yn y drefn honno, ers 2001. Yn 2017/18, cafwyd ychydig o gynydd yn y boblogaeth 16-64 oed, am y tro cyntaf ers 2006/07 (Ffigur 9).



Ffigur 9: Mynegai twf poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn ôl grŵp oedran (2001-2018)

Nifer y tai a gwblhawyd

- 2.12 Drwy gymharu nifer y tai a gwblhawyd â'r twf yn y boblogaeth, gwelir anghysondeb rhwng y ddau ers 2016. Mae'r cyfraddau cwblhau wedi gostwng ers 2016, ond mae'r twf yn y boblogaeth wedi cyflymu yn ystod yr un cyfnod (Ffigur 10).



Ffigur 10: Nifer y tai a gwblhawyd a'r newid yn y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin 2007/08-2018/19

3 Senarios Demograffig

Diffiniad o'r Senarios

- 3.1 Nid oes un farn bendant ynghylch lefel debygol y twf a ddisgwylir yn Sir Gaerfyrddin. Yn y pen draw, bydd cyfuniad o faterion demograffig, economaidd a materion polisi lleol yn pennu cyflymdra a maint y newid.
- 3.2 Mae'r senarios newydd hyn wedi'u hailgyflunio i ddarparu rhagor o dystiolaeth i gefnogi CDLI Adneuol Sir Gaerfyrddin – yn benodol y twf arfaethedig mewn anheddau dros gyfnod y cynllun (2018-33). Maent wedi'u cyflwyno yng nghyd-destun y FfDC drafft a'r ystadegau demograffig diweddaraf ar gyfer y sir.
- 3.3 Yn ogystal â senario Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar ddata 2014, mae tri senario demograffig arall wedi'u cyflunio, sy'n rhoi ystyriaeth i hanesion eraill o ran mudo y gellir tarddu rhagdybiaethau ynghylch tueddiadau ohonynt. Mae'r gyfres lawn o senarios fel a ganlyn:
- **Seiliedig ar ddata 2014 Llywodraeth Cymru:** mae hyn yn ailadrodd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata 2014
 - **Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr:** Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod pedair blynedd hanesyddol (2014/15-2017/18) sy'n cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai.
 - **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir:** Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod 17 mlynedd hanesyddol llawn (2001/02-2017/18).
 - **Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd:** Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod 10 mlynedd hanesyddol, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwmp ariannol.


Mae twf aelwydydd ac anheddau dan y senarios demograffig wedi parhau i gael ei amcangyfrif drwy ddefnyddio rhagdybiaethau o fodel amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata 2014, ac nid yw amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar ddata 2017 wedi'u cyhoeddi eto. Mae pob senario wedi'i gyflunio gan ddefnyddio'r gyfradd eiddo gwag yng Nghyfrifiad 2011, sef 6.3%, ynghyd â chyfradd eiddo gwag amgen o 3.4%. Mae'r gyfradd eiddo gwag is yn golygu cyfradd deiliadaeth uwch, ac felly gofyniad is o ran anheddau mewn perthynas â thwf y boblogaeth.

Canlyniadau'r Senarios

- 3.4 Mae llwybrau twf 2001-2033 ar gyfer yr holl senarios sy'n seiliedig ar dueddiadau ac sydd wedi'u hailgyflunio, yn ogystal â senario Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata 2014, yn cael eu cyflwyno yn Ffigur 11. Yn Tabl 1, caiff pob senario ei grynhoi o ran twf poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer cyfnod y cynllun, sef 2018-2033, ochr yn ochr â'r canlyniadau o ran mudo net a thwf anheddau blynyddol ar gyfartaledd (dan gyfradd y Cyfrifiad a'r gyfradd eiddo gwag amgen).
- 3.5 Mae'r canlyniadau o ran twf y boblogaeth yn amrywio o 1.7% dan senario **Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata 2014** i 9.6% dan y senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir**. Mae'r twf yn y boblogaeth yn sylweddol uwch dan bob un o'r senarios demograffig sy'n seiliedig ar dueddiadau, o gymharu â'r amcangyfrif dan senario **Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata 2014**, ac mae'n cael ei yrru ym mhob achos gan ragdybiaethau uwch ynghylch mudo net, ac felly colled net is o ganlyniad i newid naturiol.
- 3.6 Yn y senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr**, rhagwelir y newid lleiaf yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun, sy'n gyson â'r senarios yn yr adroddiad blaenorol³. Dan y senario hwn, mae'r twf amcangyfrifedig yn y boblogaeth yn 7.6% dros gyfnod y cynllun, o gymharu â 5.7% yn flaenorol. Mae hyn o ganlyniad i'r cynnydd sydyn o ran mudo mewnol net yn 2017/18 sydd bellach wedi'i gynnwys yn y senario hwn, a'r ffoecs ar y pedair blynedd o adfer o ran twf tai. Byddai'r twf amcangyfrifedig yn y boblogaeth yn cefnogi twf anheddau o gyfanswm o 9,147 dros gyfnod y cynllun, neu 8,871 gan ddefnyddio'r gyfradd gwacter amgen. Byddai hyn yn gofyn am dwf anheddau blynyddol ar gyfartaledd o +610/+591 o anheddau y flwyddyn (ayf).
- 3.7 Mae'r senario **Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd** yn golygu poblogaeth fwy o gymharu â'r senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr**. Mae hyn oherwydd ei fod yn cynnwys amcangyfrifon mudo yn y blynyddoedd yn union cyn y dirwasgiad a'r cyfnod adfer mwy diweddar. Mae hyn yn golygu twf anheddau blynyddol ar gyfartaledd o +615 ayf a +596 ayf gan ddefnyddio'r gyfradd eiddo gwag amgen.
- 3.8 O'r tri senario sy'n seiliedig ar dueddiadau, yn y senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir** y ceir y twf mwyaf yn y boblogaeth, aelwydydd ac anheddau o dipyn. Mae hyn o ganlyniad i'r tuedd ddiweddar o ran mudo mewnol net cymharol uchel, ynghyd â chyfansymiau mudo uwch cyn y dirwasgiad, ac maent i gyd yn cael eu cynnwys yn y senario hwn. Mae cyfanswm twf anheddau yng nghyfnod y cynllun yn fwy na 10,000 dan bob cyfradd eiddo gwag, sy'n cyfateb i 679 ayf gan ddefnyddio'r gyfradd eiddo gwag is.
- 3.9 Mae cyfran fach o boblogaeth Sir Gaerfyrddin o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Drwy beidio â chynnwys y ddaearyddiaeth yn senarios Sir Gaerfyrddin, ceir cyfanswm poblogaeth a chanlyniadau twf ychydig yn is (Atodiad A).

³ Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin – Edge Analytics Ltd (Hydref 2018)

Canlyniadau Senarios Sir Gaerfyrddin




Ffigur 11: Twf poblogaeth Sir Gaerfyrddin 2001-2033

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,991	9.6%	9,842	12.1%	1,448	700	679	10,502	10,185
PG 10yr	15,284	8.1%	8,641	10.6%	1,266	615	596	9,221	8,942
PG Short Term	14,273	7.6%	8,573	10.5%	1,245	610	591	9,147	8,871
WG 2014-based	3,207	1.7%	3,254	4.0%	546	231	224	3,472	3,367

Tabl 1: Canlyniadau Senarios Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (Yn nhrefn y newid yn y boblogaeth)

4 Amcangyfrifon Twf Cyflogaeth

- 4.1 Mae pob un o'r senarios a gyflwynir uchod wedi'i gyflunio i ystyried y twf posibl mewn cyflogaeth a olygir gan bob canlyniad o ran twf y boblogaeth. Er mwyn mesur y berthynas rhwng y boblogaeth a chyflogaeth, mae'n rhaid pennu tair rhagdybiaeth allweddol: cyfraddau gweithgarwch economaidd sy'n benodol i oedran, cyfradd diweithdra, a chymhareb cymudo (gweler Atodiad B).
- 4.2 Mae **cyfraddau gweithgarwch economaidd** yn mesur cyfran y boblogaeth (yn ôl grŵp oedran) sy'n cymryd rhan yn y farchnad lafur, naill ai'n gyflogedig neu'n ddi-waith. Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio rhagolygon hirdymor diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ynghylch lefelau cyfranogi yn y gweithlu sy'n newid, yn ôl grŵp oedran, i amcangyfrif newidiadau o ran cyfradd gweithgarwch economaidd Sir Gaerfyrddin dros gyfnod ei chynllun. Ar yr un pryd, defnyddir **cyfradd diweithdra** o 3.6% (ffigur Sir Gaerfyrddin yn 2018) drwy gydol cyfnod y rhagolwg.
- 4.3 Mae'r **gymhareb cymudo** yn nodi'r cydbwysedd rhwng nifer y gweithwyr sy'n byw yn y sir a'r lefel cyflogaeth. Mae cymhareb o fwy na 1.0 yn dangos allgymudo net (mwy o weithwyr na swyddi), ac mae cymhareb o lai na 1.0 yn dangos mewngymudo net (mwy o swyddi na gweithwyr). Yn y dadansoddiad hwn, mae'r gymhareb cymudo wedi'i gosod ar lefel Sir Gaerfyrddin yng Nghyfrifiad 2011 (1.09) drwy gydol cyfnod y cynllun.
- 4.4 Mae'r canlyniadau o ran twf cyflogaeth blynyddol ar gyfartaledd yn amrywio o -55 dan senario **Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata 2014** i +439 dan y senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir** (Ffigur 12). Mae Tabl 2 yn dangos cyfanswm y newid mewn cyflogaeth dros gyfnod y cynllun, sef 2018-33. Amcangyfrifir bod y senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir** yn cefnogi twf mewn cyflogaeth o gyfanswm o 8.4% dros gyfnod y cynllun, sydd wedi'i yrru gan y lefel mewnfudo uchaf gan bobl o oedran gweithio.



Ffigur 12: Twf Cyflogaeth Blyneddol ar Gyfartaledd ar gyfer pob Senario Demograffig


- 4.5 Fodd bynnag, mae'r senarios **Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd a Thwf Poblogaeth yn y Tymor Byr** hefyd yn amcangyfrif twf cyflogaeth cymharol fywiog dros gyfnod y cynllun, sef 6.7% a 5.5%, yn y drefn honno (Tabl 2). Mae amrywiaeth o ffactorau demograffig a rhagdybiaethau economaidd yn llywio'r amcangyfrifon hyn ynghylch twf cyflogaeth. Mae'r amcanestyniadau ynghylch twf poblogaeth sy'n cyflymu a'r tueddiadau amcangyfrifedig o ran mudo yn ffactorau allweddol a gefnogir hefyd gan broffil oedran Sir Gaerfyrddin (a ddangosir yn Ffigur 9) – lle'r oedd y dystiolaeth ddiweddaraf yn cofnodi twf yn y boblogaeth oedran gweithio am y tro cyntaf ers 2006/07.

Scenario	Change 2018 - 2033		Average Annual Growth
	Employment Change	% Employment Change	
PG Long Term	6,581	8.4%	439
PG 10yr	5,307	6.7%	354
PG Short Term	4,318	5.5%	288
WG 2014-based	-829	-1.1%	-55

Tabl 2: Y Canlyniadau o ran Cyflogaeth ar gyfer pob Senario Demograffig (Yn nhrefn y newid mewn cyflogaeth)

5 Crynodeb

- 5.1 Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn adolygu ei CDLI Adneuol i gynnwys ffigur diwygiedig o ran y gofyniad tai ar gyfer cyfnod y cynllun, sef 2018-2033. Mae'r strategaeth bresennol a ffefrir wedi nodi gofyniad tai o 9,887 (cyfartaledd o +659 ayf), sy'n gyson â'r senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir**⁴.
- 5.2 Mae'r Cyngor wedi ceisio adolygu ei ofyniad tai yng ngoleuni amrywiaeth o dystiolaeth newydd, gan gynnwys amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018 Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â'r canllawiau a'r dyheadau rhanbarthol o ran twf tai y manylir arnynt yn y fersiwn drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol⁵ (FfDC).
- 5.3 Mae amrywiaeth o senarios wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio technoleg POPGROUP i ystyried canlyniadau amgen o ran twf. Mae'r senarios **Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr** a **Thwf Poblogaeth dros 10 mlynedd** wedi'u hailgyflunio, gan anwybyddu'r blynyddoedd yn union ar ôl y cwmp ariannol (**Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd**), a chan ddefnyddio hanes mudo byrrach o bedair blynedd i gynnwys yr adferiad o ran twf tai ar ôl 2014 (**Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr**).
- 5.4 Mae Ffigur 13 yn crynhoi cyfanswm twf anheddau a ragwelir yn ystod cyfnod y cynllun dan bob senario, mewn perthynas â chyfradd eiddo gwag y Cyfrifiad a'r gyfradd eiddo gwag amgen, ynghyd â chanran y twf yn y boblogaeth (cylchoedd).



Ffigur 13: Twf Anheddau a Thwf Poblogaeth Blynyddol ar gyfartaledd ar gyfer pob Senario Demograffig

⁴ Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin – Edge Analytics Ltd (Hydref 2018)


⁵ <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft>

- 5.5 Mae'r senarios **Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd a Thwf Poblogaeth yn y Tymor Byr** yn cyflwyno canlyniadau tebyg iawn. Mae cyfanswm twf anheddau yn fwy na 9,000 yn y ddau senario dan gyfradd eiddo gwag y Cyfrifiad (9,221 a 9,147), gan gwmpo islaw'r cyfanswm o 9,000 dan y gyfradd eiddo gwag amgen (8,942 a 8,871 yn y drefn honno). Mae'r senario **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir** yn amcangyfrif cyfanswm twf anheddau o dros 10,000 dan bob cyfradd eiddo gwag (692 a 671 ayf) ac yn rhagweld y twf mwyaf yn y boblogaeth, sef 9.6%, rhwng 2018 a 2033.
- 5.6 Gan ddefnyddio cyfuniad o gyfraddau gweithgarwch economaidd, cyfradd diweithdra a rhagdybiaethau ynghylch y gymhareb cymudo, mae canlyniad pob senario wedi'i newid yn amcangyfrif twf cyflogaeth a allai gael ei gefnogi gan y newid yn y boblogaeth. Er mai'r amcangyfrif ar gyfer senario **Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata 2014** yw dirywiad mewn cyflogaeth, mae'r tri senario twf poblogaeth, sydd ag effeithiau mwy o ran mudo net, yn amcangyfrif twf cyflogaeth ar gyfartaledd o 288-439 y flwyddyn.

Atodiad A

Sir Gaerfyrddin y Tu Allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Canlyniadau Senarios Sir Gaerfyrddin



Ffigur 14: Twf Poblogaeth Sir Gaerfyrddin 2001-2018 - Y Tu Allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,811	9.6%	9,726	12.0%	1,516	692	671	10,375	10,065
PG 10yr	15,115	8.1%	8,538	10.6%	1,337	607	589	9,108	8,835
PG Short Term	14,133	7.6%	8,474	10.5%	1,317	603	585	9,040	8,769
WG 2014-based	2,581	1.4%	2,878	3.6%	481	205	199	3,070	2,978


Tabl 3: Canlyniadau Senarios Sir Gaerfyrddin - Y Tu Allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad B

Rhagdybiaethau Economaidd

Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd

- A.1 Cyfraddau gweithgarwch economaidd (y cyfeirir atynt hefyd fel cyfraddau cyfranogi yn y gweithlu) yw cyfran y boblogaeth sy'n cymryd rhan yn y gweithlu, naill ai'n gyflogedig neu'n ddi-waith ac yn chwilio am waith.
- A.2 Fel rhan o adroddiad cynaliadwyedd ariannol 2018⁶, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ei rhagolygon hirdymor diweddaraf ynghylch y newidiadau o ran cyfraddau gweithgarwch economaidd sy'n benodol i oedran a rhyw. Mae'r rhain yn cael eu llywio gan amcanestyniadau poblogaeth sy'n benodol i oedran a rhyw a chyfraddau gweithgarwch economaidd hanesyddol, ac maent hefyd yn rhoi cyfrif am y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth sy'n cynyddu cyfraddau gweithgarwch economaidd ymhlith grwpiau oedran hŷn.
- A.3 Mae rhagolygon cenedlaethol yr OBR ynghylch gweithgarwch economaidd wedi'u defnyddio i amcangyfrif proffil Sir Gaerfyrddin o ran y gyfradd gweithgarwch economaidd hyd at 2033. O ran dynion, yn y grŵp oedran 35-54, gwelir ychydig o ostyngiad yn y cyfraddau gweithgarwch economaidd rhwng 2018 a 2033; ond mae cyfraddau gweithgarwch economaidd menywod yn cynyddu ar draws pob grŵp oedran, gan adlewyrchu newidiadau economaidd-gymdeithasol nawr ac yn y dyfodol.
- A.4 Gwelir y newidiadau mwyaf arwyddocaol yn y grŵp oedran 60+, lle mae'r holl gyfraddau gweithgarwch economaidd yn cynyddu o ran y ddau ryw dros gyfnod y cynllun. Mae rhai newidiadau arbennig o sylweddol o ran menywod hŷn dros gyfnod y cynllun, oherwydd rhagwelir y bydd cyfraddau gweithgarwch economaidd o ran menywod 75-89 oed yn cynyddu o 4.8% yn 2018 i 11.9% erbyn 2033.




Ffigur 15: Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd Sir Gaerfyrddin: 2001, 2011, 2018 a 2033

⁶ <https://obr.uk/fsr/fiscal-sustainability-report-july-2018/>

Cyfradd Diweithdra

- A.5 Mae cyfradd diweithdra Sir Gaerfyrddin wedi cwmpo'n gyson ers 2013, gan gyrraedd pwynt isaf o 3.6% yn 2018 (Ffigur 16).




Ffigur 16: Cyfradd Diweithdra Sir Gaerfyrddin 2004–2018

- A.6 Y gyfradd diweithdra yw cyfran y bobl ddi-waith yng nghyfanswm y boblogaeth economaidd weithgar. Mae ei gwerth yn seiliedig ar amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n seiliedig ar fodel ac sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth⁷ gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r dull sy'n seiliedig ar fodel yn gwella allbwn crai yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth drwy ddefnyddio data o'r cyfrifiad hawlwyf hefyd (cyfrifiad pobl sy'n hawlio budd-dâl a'r prif reswm am hynny yw eu bod yn ddi-waith). Mae hyn yn cynyddu'r manylder a gollir ym maint sampl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n fach ac yn annibynadwy yn aml.
- A.7 Mae pob senario yn defnyddio gwerth cyfradd diweithdra sefydlog ar gyfer 2018 tan ddiwedd cyfnod y cynllun.

Cymhareb Cymudo

- A.8 Mae'r gymhareb cymudo yn dangos y cydbwysedd rhwng nifer y gweithwyr sy'n byw yn y sir a'r lefel gyflogaeth (Ffigur 17).



Ffigur 17: Crynodeb o'r Gymhareb Cymudo

⁷ https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157392/subreports/ea_time_series/report.aspx?

- 5.7 Roedd Cyfrifiad 2011 yn cofnodi 81,402 o weithwyr yn Sir Gaerfyrddin a lefel gyflogaeth o 74,569; sy'n golygu cymhareb cymudo o 1.09 (h.y. mwy o weithwyr na chyflogaeth yn yr ardal, gan arwain at allgymudo net o'r Awdurdod Unedol).⁸
- 5.8 Mae pob senario yn defnyddio gwerth cymhareb cymudo sefydlog o 1.09 tan ddiwedd cyfnod y cynllun.

⁸ <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/wu02uk>